SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

The Rt Hon Sajid Javid MP
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf/Our Ref: AJ/HE/1815

09 Ionawr/January 2019

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

**Plismona ac Iechyd Meddwl – Codi'r darnau**

Fel sy'n ofynnol yn statudol, ysgrifennaf atoch gyda'm sylwadau ar Adroddiad Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ar Blismona ac Iechyd Meddwl.

Rwy'n falch fod yr arolygaeth wedi cydnabod y galw diangen a osodi oherwydd methiant gwasanaethau eraill. Dylai'r rhai sydd mewn argyfwng gael eu gofalu gan weithwyr iechyd proffesiynol ac nid gan yr heddlu. Cytunaf fod angen ailfeddwl yn radical i warantu ymateb arbenigol amserol gan y gwasanaeth iechyd.

Fy mlaenoriaeth trosfwaol o fewn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yw lleihau'r bygythiad, risg a niwed i'r mwyaf bregus o fewn ein cymunedau. Rwyf yn dawel fy meddwl fod yr arolygaeth wedi nodi fod yr heddlu yn gynorthwyol, ystyriol a thrugarog wrth ymdrin ag iechyd meddwl er y baich a osodir arnynt.

Cytunaf gyda'r argymhelliad a roddwyd i heddluoedd i gynnal ymarfer ciplun er mwyn asesu'r galw mae iechyd meddwl yn ei osod ar yr heddlu. Tynnodd yr adroddiad sylw fod gan Heddlu Gogledd Cymru'r nifer isaf o ddigwyddiadau a dynnwyd sylw atynt a oedd yn berthnasol i iechyd meddwl ar ond 0.4% gyda'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2.8%. Oherwydd y systemau TG a ddefnyddir gan Heddlu Gogledd Cymru, dim ond galwyr mynych sy'n defnyddio'r un rhif ffôn a nodir

Dear Home Secretary ,

**Policing and Mental Health – Picking up the pieces**

As required by statue, I am writing to you with my comments on the Her Majesty's Inspectorate of Constabulary, Fire and Rescue Service Report on Policing and Mental Health.

I am pleased that the inspectorate has recognised the unnecessary demand placed on police forces due to the failure of other services. Those who are in crisis should be cared for by health professionals and not by the police. I agree that there needs to be a radical rethink to guarantee a timely expert response from the health service.

My overarching priority within my Police and Crime Plan is to reduce the threat, risk and harm to the most vulnerable within our communities. I am reassured that inspectorate have identified that the police are supportive, considerate and compassionate when dealing with mental health despite the burden placed on them.

I agree with the recommendation given to forces to carry out a snapshot exercise to assess the demand that mental health places on the force. The report highlighted that North Wales Police had the lowest number of flagged incidents which related to mental health at only 0.4% with the national average being 2.8%. Due to IT systems used by North Wales Police it is only repeat callers using the same telephone number who are identified by the Command and Control system. I will continue to scrutinise the force

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

gan y system Reoli. Gwnaf barhau i graffu'r heddlu ar ei allu i nodi galw sy'n berthnasol i achosion o iechyd meddwl.

on their ability to identify demand related to mental health incidents.

Mae'r Arolygaeth wedi cydnabod yr angen i heddlu gynnal gwerthusiad system frysbennu iechyd meddwl erbyn mis Awst 2019. Ar hyn o bryd nid oes system frysbennu iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru er bod arbrawf mewn grym yn ystod yr arolygaeth. Adolygir yr angen am system frysbennu iechyd meddwl a gwnaf barhau i fonitro cynnydd yr heddlu drwy'r Bwrdd Gweithredu Strategol lle rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.

The Inspectorate has recognised the need for forces to carry out an evaluation of the mental health triage system by August 2019. There is currently no mental health triage system in North Wales despite there being a pilot in place during the inspection. The requirement for a mental health triage system will be reviewed and I will continue to monitor the force's progress via the Strategic Executive Board where I hold the Chief Constable to account.

Roedd y pedwerydd argymhelliad yn gofyn i heddluoedd adolygu eu rhaglenni hyfforddiant iechyd meddwl. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyhoeddi eu bwriad i fabwysiadu'r model Northumbria Respond mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill. Gwnaiff y pecyn hyfforddiant hwn gynyddu'r wybodaeth i wella'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan y rhai hynny mewn argyfwng. Gwnaf ofyn am ddiweddariadau rheoliadau gan yr heddlu ar gynnydd gweithredu'r pecyn hyfforddiant hwn.

The fourth recommendation requested for forces to review their mental health training programmes. North Wales Police have announced their intention of adopting the Northumbria Respond model in partnership with other services. This training package will increase knowledge to improve the service received by those in crisis. I will request regular updates from the force on the progress of implementing this training package.

Yn olaf gwnaf barhau i graffu'r heddlu ar achosion sy'n berthnasol i iechyd meddwl er mwyn sicrhau fy mod â gwir ddarlun o'r galw a osodir arnynt gan y gwasanaethau annigonol a ddarperir gan ein partneriaid.

Finally I will continue to scrutinise the force on incidents related to mental health to ensure that I have a true picture of the demand placed on them by the insufficient services provided by our partners.

Yn gywir    Yours sincerely

Arfon Jones
Comisiynydd Heddlu / Police Commissioner

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: **01492 805486**
Ebost / Email: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: **01492 805489**